

Pecyn adnoddau addysg gyrfaedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith



**Gyrfa Cymru
Careers Wales**

Cynnwys

1. Datblygu gweledigaeth ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eich ysgol	2
2. Cynnydd mewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	3
3. Cynllunio ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn y Cwricwlwm i Gymru	4
4. Canllaw ar gyfer gwerthuso a gwella	5
5. Adrodd ar ansawdd i uwch arweinwyr	8
6. Rôl yr arweinydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	9
7. Rolau athrawon o fewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	11
8. Rôl y gweithiwr gyrfaoedd proffesiynol	12
9. Adnoddau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y sector cynradd	13
10. Adnoddau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y sector uwchradd	18
11. Adnoddau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn ysgolion arbennig	25
12. Creu diwylliant dysgu proffesiynol o fewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	28
13. Creu rhwydwaith	31
14. Datblygu perthynas gyda chyflogwr neu ymwelydd arall	33
15. Cynllunio eich proses hunanasesu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	34
16. Prif ganfyddiadau o'ch hunanasesiad	35
17. Portffolio hunanasesu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	36

1. Datblygu gweledigaeth ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eich ysgol

Mae'r templed isod yn eich galluogi i adeiladu gweledigaeth ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn eich ysgol. Ei nod yw eich helpu i ystyried cenhadaeth eich ysgol, pa weithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sydd gennych eisoes ar waith, eich amcanion ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a sut y byddwch yn eu cyflawni.

Beth yw gweledigaeth neu ddatganiad cenhadaeth eich ysgol a sut mae'n ymwneud â gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith?

Pa weithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sydd eisoes yn bodoli o fewn eich ysgol a'ch cwricwlwm?

Beth yw'r weledigaeth ar gyfer eich darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith? Beth mae'n ceisio'i gyflawni yn y pen draw?

I ble yr ydych yn dymuno cyrraedd? Sut ydych chi am i'ch darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith edrych ymhen tair blynedd? Nodwch 3 i 5 amcan lefel-uchel.

- 1
- 2
- 3
- 4
- 5

Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol yr ydych yn cydweithio â nhw i ddatblygu eich cwricwlwm?

Sut ydych chi'n mynd i gyrraedd yno? Nodwch 3 i 5 o gamau lefel-uchel.

- 1
- 2
- 3
- 4
- 5

Cliciwch yma i agor y ffurflen

2. Cynnydd mewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith

Mae gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn broses ddysgu barhaus. Mae sicrhau cynnydd yn golygu mynd â'r dysgu'n ehangach ac yn ddyfnach bob tro yr ail-ymwelir â nod dysgu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Dysgwyr eu hunain yw'r bobl orau i benderfynu ar yr hyn y maent yn barod i'w ddysgu nesaf a lefel yr her sy'n addas iddynt. Gall ysgolion adnabod camau cynnydd eang sy'n adidas ar gyfer oedran a lefel datblygiad y mwyaf o ddysgwyr, gan gysylltu'r camau hyn i nodau dysgu yn yr adrannau ar ganllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru ac i'w amgylchiadau unigryw.

Mae'r templed isod yn eich galluogi i ysgrifennu datganiadau cynnydd sy'n berthnasol i oedran ac ystod datblygiadol eich dysgwyr.

Mae'r amgylchedd dysgu yn datblygu, ac mae'r addysgu yn ffocysu ar:	Datblygiad cynnar (Tua 3 i 7 oed)	Blynnyddoedd datblygiadol (Tua 8 i 11 oed)	Glasoed (Tua 12 i 16 oed)
Archwilio hunaniaeth a chymdeithas			
Ehangu gorwelion			
Goresgyn rhwystrau			
Archwilio cyfleoedd			
Datblygu hyblygrwydd a gwydnwch			

Cliciwr yma i agor y ffurflen

3. Cynllunio ar gyfer gyrfaeodd a phrofiadau byd gwaith o fewn y Cwricwlwm i Gymru

Mae gyrfaeodd a phrofiadau byd gwaith yn thema drawsbynciol i hyrwyddo datblygiad gyrfa dysgwyr a'u cynnydd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd). Bydd dysgwyr yn elwa o gael cynllun gyrfaeodd a phrofiadau byd gwaith sydd yn hyblyg, yn esblygu ac sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u diddordebau. Mae angen cytuno ar y cynllun a'i gynnal yn barhaus ar lefel ysgol a dangos, yn glir ac yn benodol, sut y bydd gyrfaeodd a phrofiadau byd gwaith yn cael ei weithredu. Darperir y templed isod fel enghraift ond efallai y byddai'n well gan ysgolion ei addasu neu ddefnyddio eu hoffer cynllunio a monitro, gwerthuso ac adolygu presennol yn lle.

Grwpiau targed Ar gyfer pwy mae'r weithgaredd?	Amserlennu Pryd y bydd yn digwydd?	Trosolwg o'r weithgaredd Beth fydd yn digwydd?	Meysydd dysgu a phrofiad Pa Feysydd? *	Effaith a fwriedir		Adolygu Beth allwn ni ei wneud i wella'r ddarpariaeth?

*Allwedd:

Y Celfyddydau Mynegiannol (celf; dawns; drama; ffilm a chyfryngau digidol; cerddoriaeth)

Iechyd a Lles (iechyd a datblygiad y corff, iechyd meddwl; lles emosynol a chymdeithasol)

Y Dyniaethau (daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes; astudiaethau cymdeithasol)

Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg; Saesneg; ieithoedd rhwngwladol; iaith Arwyddion Prydain)

Mathemateg a Rhifedd


Gwyddoniaeth a Thechnoleg (bioleg; cemeg; cyfrifiadureg; dylunio a thechnoleg; ffiseg)

Cliciwch yma i
agor y ffurflen

4. Canllaw ar gyfer gwerthuso a gwella

Mae gwerthuso'n cyfrannu at hunanasesu drwy ddarparu ffordd strwythuredig o ymchwilio i werth darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yr ysgol ac adnabod sut y gellir ei gwella ymhellach. Mae'n weithgaredd sy'n defnyddio adnoddau'n ddwys ac y mae angen rheoli'r broses yn ofalus er mwyn sicrhau bod canlyniadau yn deillio o'r buddsoddiad. Mae'r dull a awgrymir yn y pecyn adnodd hwn yn dilyn y canllawiau yn *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd* (Llywodraeth Cymru, 2021) (llyw.cymru/canllawiau-gwella-ysgolion) gan annog dull hyblyg a realistig ar gyfer gwerthuso a gwella gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

Bydd gwerthusiad effeithiol yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau'r rhai sy'n arwain datblygiad gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn yr ysgol. Mae hyn yn awgrymu bod angen i chi feddwl am y camau canlynol.



Penderfynu beth rydych chi am ei werthuso mewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a pham

Dylai gwerthuso fod yn broses ddyddiol a pharhaus; ond o bryd i'w gilydd bydd ysgolion yn adnabod yr angen i gynnal gwerthusiad penodol. Gall hyn gael ei sbarduno gan bryderon penodol fel:

- ydych chi'n ymwybodol o anhawster fel adborth negyddol gan ddysgwyr mewn perthynas â faint maen nhw'n mwynhau ac yn gwerthfawrogi gweithgaredd penodol (a sut allwn ni weddnewid y sefyllfa)?
- a ydych yn ansicr a yw gweithgaredd yn cael yr effaith a ddymunir?
- a oes gennych ddiddordeb mewn treialu a gwerthuso gweithgaredd newydd?

Wrth benderfynu beth i'w werthuso, bydd angen i chi hefyd fod yn realistig yng hylch pa lefel rydych yn ei chyflwyno. Mae D. L. Kirkpatrick yn nodi'r pedair lefel werthuso canlynol.

1. Adweithiau – A yw dysgwyr yn fodlon?
2. Dysgu – Pa ddysgu sydd wedi digwydd?
3. Trosglwyddo – A yw perfformiad dysgwyr wedi gwella?
4. Canlyniadau – A yw'r ysgol wedi elwa?

Cyflwyno cynllun ar gyfer cynnal y gwerthusiad

Bydd cynllunio gofalus yn eich helpu i osgoi camgymeriadau fel peidio â chyfathrebu'n dda â'r rhai a fydd yn rhan o'r gwerthusiad. Bydd hefyd yn eich helpu i osgoi diffygion gwerthuso megis barnu bod gweithgaredd yn aneffeithiol pan, mewn gwirionedd, y broses o reoli a gweithredu'r gweithgaredd oedd yn ddiffygiol.

Gallwch addasu/defnyddio'r cynllunydd gwerthuso hwn i baratoi ar gyfer gwerthusiad.

Penawdau'r cynllun gwerthuso	Eich cynllun
Materion i'w archwilio	
Diben y gwerthusiad	
Eich rhagdybiaethau neu brif syniadau mewn perthynas â ffocws y gwerthusiad	
Pwy fydd yn cymryd rhan ac ym mha ffordd?	
Dulliau ac amserlen ar gyfer casglu gwybodaeth gan gynnwys treialu eich offerynnau gwerthuso	
Dulliau ac amserlen ar gyfer dadansoddi a dehongli gwybodaeth	
Formatau ar gyfer cyflwyno a lledaenu eich canfyddiadau	

Cliciwch yma i
agor y ffurflen

Darllen pellach


- Mae *A Guide to Actively Involving Young People in Research* gan Perpetua Kirby (www.invo.org.uk/wp-content/uploads/2012/01/InvolvingYoungPeople2004.pdf) yn cynnig cyngor ar sut i gynnwys dysgwyr fel rhan o'r broses werthuso.
- Mae'r casgliad o ganllawiau 'How to' (www.nfer.ac.uk/how-to-guides-collection) gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) yn cynnig cyngor ar gynnal ymchwil weithredol a chynnal grwpiau ffocws.
- Mae'r bennod ar gwerthuso a datblygu eich rhaglen yn *The Careers Leader Handbook* gan David Andrews a Tristram Hooley (Trotman Publishing, 2018) (<https://trotman.co.uk/products/the-careers-leader-handbook>) yn cyflwyno model theori newid a fydd yn eich helpu i wella effeithiolrwydd eich gwerthusiadau.
- Mae *Practical Research and Evaluation: A Start-to-Finish Guide for Practitioners* gan Lena Dahlberg a Colin McCaig (SAGE Publications Ltd, 2010) (<https://methods.sagepub.com/book/practical-research-and-evaluation>) yn cynnwys cyflwyniad hygrych i werthuso.
- Mae *The DIY Evaluation Guide* gan Rob Coe, Stuart Kime, Camila Nevill a Robbie Coleman ar gyfer y Educational Endowment Foundation (https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Evaluation_Guide/EEF_Evaluation_DIY_Evaluation_Guide.pdf) yn adnodd defnyddiol i athrawon.

5. Adrodd ar ansawdd i uwch arweinwyr

Weithiau mae'n ddefnyddiol i arweinydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ddarparu crynodeb byr o gynnydd yr ysgol yn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i uwch arweinwyr. Mae'r offeryn canlynol yn cynnig un ffordd o gyflwyno'r wybodaeth hon fel crynodeb un-dudalen.

Ystyriwch bob un o'r chwe dimensiwn o ansawdd a nodwch yr hyn yr ydych chi'n ystyried fel sgôr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ar draws yr ysgol. Tynnwch linellau rhwng y rhifau/sgoriau i ddarparu darlun gweledol o'r sefyllfa yn eich ysgol.

Cwblhewch y siart canfyddiadau allweddol a gwnewch eich argymhellion ar gyfer cryfhau, gwella neu flauenriaethu'r camau nesaf ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.



Canfyddiadau allweddol	Argymhellion allweddol

6. Rôl yr arweinydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith

Un o egwyddorion allweddol y Cwricwlwm i Gymru yw cydweithio ac integreiddio agos rhwng rolau staff ar lefel ysgol gyfan ac draws Meysydd. Mae gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn gofyn am gydweithio fel tîm. Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn dymuno ystyried sut y gall rôl yr arweinydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith gefnogi'r ffordd hon o weithio.

Mae rôl yr arweinydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn swyddogaeth arbenigol a gyflawnir gan uwch arweinydd neu arweinydd canol fel arfer fel rhan o'u dyletswyddau ehangach. Bydd maint y rôl a'r dyletswyddau yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol. Gall athro, ymarferwr datblygu gyrfa proffesiynol neu weithiwr proffesiynol o gefndir arall ei wneud yn ogystal (er enghraift aelod o'r staff gweinyddol, unigolyn sydd â phrofiad mewn diwydiant). Bydd angen i'r uwch arweinwyr gymryd camau i ddod o hyd i gyfleoedd dysgu proffesiynol i'r unigolyn a benodir er mwyn sicrhau bod ganddynt y set sgiliau briodol. Mae'r ffigur isod yn dangos y prif dasgau arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig â fframwaith hunanasesu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

Rôl arweinydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith (wedi'i addasu o lawlyfr David Andrews a Tristram Hooley The Careers Leader Handbook) (<https://trotman.co.uk/products/the-careers-leader-handbook>)

Y fframwaith	Tasgau allweddol
Arwain datblygiad gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	<ol style="list-style-type: none">Cynghori uwch arweinwyr ar bolisi, strategaeth ac adnoddau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithAdrodd i uwch arweinwyr a'r corff llywodraethuRheoli gwaith staff gyrfaoedd eraill, er enghraift gweinyddwr (os yw'n briodol)
Gwired du gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm	<ol style="list-style-type: none">Rheoli sut y darperir gwybodaeth am yrfaedd ac adhoddau'r cwricwlwmCysylltu ag arweinwyr ym mhob un o'r Meysydd i gynllunio a datblygu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithCynnal cynllun gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith blynnyddol
Gweithredu dysgu ac addysgu mewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn effeithiol	<ol style="list-style-type: none">Monitro datblygiadau mewn ymchwil, theori ac ymarfer addysgegArgymhell dulliau dysgu ac addysgu ar gyfer gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
Cefnogi datblygiad proffesiynol ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	<ol style="list-style-type: none">Briffio a chefnogi athrawon, tiwtoriaid a staff cynorthwyoAsesu anghenion hyfforddi a thrafod ymyriadau dysgu proffesiynol posibl

Rôl arweinydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith (wedi'i addasu o lawlyfr David Andrews a Tristram Hooley The Careers Leader Handbook) (<https://trotman.co.uk/products/the-careers-leader-handbook>)

Y fframwaith	Tasgau allweddol
Datblygu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ar y cyd	<p>11. Trafod cytundeb lefel gwasanaeth blynnyddol gyda Gyra Cymru (ysgolion uwchradd)</p> <p>12. Sefydlu, cynnal a datblygu gweithgareddau gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr</p> <p>13. Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr mewn perthynas â gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith</p> <p>14. Defnyddio llais y dysgwyr</p>
Dangos effaith gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith	<p>15. Cysylltu â rheolwyr cymorth bugeiliol dysgwyr (er enghraifft rheolwyr tîm tiwtorial, cydlynnydd anghenion addysgol arbennig) i nodi ffyrdd o ddiwallu anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys cyfeirio dysgwyr at gynghorwyr gyrfaoedd</p> <p>16. Monitro, adolygu a gwerthuso effaith gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith</p>

7. Rolau athrawon o fewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith

Mae athrawon dosbarth yn cefnogi gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn pedair prif ffordd. Defnyddiwr yr awgrymiadau hyn i helpu staff i gynllunio eu taith dysgu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

Hysbysydd gyrffa

Bod yn oedolyn dibynadwy sydd wedi gwneud penderfyniadau gyraol ac sydd â phrofiadau a allai lywio datblygiad gyrfaf person ifanc

Cymorth bugeiliol

Darparu cymorth bugeiliol a helpu i wneud cysylltiadau i benderfyniadau gyraol a chefnogaeth berthnasol ar gyfer gyrfaoedd

Cefnogaeth o fewn Meysydd

Gwneud cysylltiadau rhwng Meysydd a gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yng nghyd-destun y cwricwlwm ehangach, ac adeiladu gwybodaeth ar yrfaedd, sgiliau rheoli gyrfaf a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm

Gwired du gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith

Bod yn rhan o'r broses o ddatblygu a darparu gweithgareddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Er enghraifft fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad lechyd a Lles neu weithgaredd trawsgwricwlaidd

Ffynhonnell: Addaswyd o waith Tristram Hooley, Tony Watts a David Andrew: Teachers and Careers (Prifysgol Derby, 2015) (<https://derby.openrepository.com/bitstream/handle/10545/346008/Teachers%20and%20Careers-final.pdf;jsessionid=A9003191F06C187D848F5281EA7E9601?sequence=1>).

8. Rôl y gweithiwr gyrfaoedd proffesiynol

Bydd eich ysgol am ddefnyddio'r cymorth a ddarperir gan Gyrfa Cymru i ddatblygu a gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Rhan allweddol o hyn fydd gweithio'n agos gyda gweithiwr proffesiynol ym maes gyrfaoedd. Dangosir rolau allweddol gweithiwr proffesiynol gyrfaoedd isod. Sut y byddwch yn defnyddio cefnogaeth gweithiwr proffesiynol gyrfaoedd i ddatblygu eich darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith chi?

Gwybodaeth ar
yrfaoedd ac asesu
Darparu gwybodaeth
annibynnol ac adnoddau
ar gyfer gyrfaoedd a
phrofiadau byd gwaith

Addysg gyrfaoedd
Cefnogi gwreddu gyrfaoedd
a phrofiadau byd gwaith
ar draws y cwricwlwm

Cwnsela a chyngor
gyrfaoedd
Darparu cwnsela gyrfaoedd
un-i-un a grŵp i fyfyrwyr

Datblygwr systemau
Darparu syniadau i'ch
cynorthwyo i ddatblygu eich
darpariaeth gyrfaoedd a
phrofiadau byd gwaith

Rheolwr rhaglen
a gwasanaethau
Cynllunio cytundeb
partneriaeth a helpu
i wireddu gweledigaeth
yr ysgol ar gyfer gyrfaoedd
a phrofiadau byd gwaith

Ffynhonnell: Wedi'i addasu o lawlyfr *NICE Handbook for the Academic Training of Career Guidance and Counselling Professionals* (www.nice-network.eu/pub/)

9. Adnoddau ar gyfer gyrfaeodd a phrofiadau byd gwaith yn y sector cynradd

Adnoddau

Mae'r rhestr hon yn cynnwys y ddau adnodd sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer Cymru, ac adnoddau sydd wedi'u datblygu ar gyfer cyd-destunau eraill. Efallai y bydd angen addasu adnoddau sydd wedi'u creu y tu allan i Gymru. Ni ddylid trin yr adnoddau yn y siartiau hyn fel argymhellion penodol. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a chaiff ei diweddu lle'n berthnasol ar wefan Gyfra Cymru.

Meysydd	Adnoddau cwricwlwm	Adnoddau dysgu proffesiynol
Y Celfyddydau Myneiniannol	<p>Mae Bring the Noise (www.bbc.co.uk/teach/bring-the-noise) yn darparu adnoddau cerddoriaeth o BBC Teach</p> <p>Mae Children in Art (www.nationalgalleries.org/art-and-artists/features/children-art) yn darparu adnoddau o Orielau Cenedlaethol yr Alban</p> <p>Mae Drama Resource (https://dramaresource.com/drama-resources/) yn cynnwys erthyglau ac adnoddau ar gyfer athrawon drama</p> <p>Mae Jump Start (https://primaryschooldance.co.uk/dance-resources/) (£) yn darparu adnoddau dawns</p> <p>Mae Nikon Kids Photo Club (https://kidsphotoclub.com) (£) yn dangos sut i ddefnyddio ffotograffiaeth yn yr ystafell ddosbarth ac o fewn clybiau allgyrsiol</p>	<p>Mae <i>Drawing the future</i> gan Nick Chambers, Dr Elnaz T Kashefpakdel, Jordan Rehill a Christian Percy (Education and Employers, 2018) (www.educationandemployers.org/wp-content/uploads/2018/01/DrawingTheFuture.pdf) yn archwilio defnydd ar ystyried llwybrau gyrfa plant yn y dyfodol</p> <p>National Drama (https://ndresources.co.uk), sef sefydliad ar gyfer athrawon drama ac addysgwyr theatr. Mae'r adnoddau yn y ddolen yn cynnig cymorth gyda dulliau dysgu o bell</p> <p>National Society for Education in Art and Design (www.nsead.org)</p> <p>Mae One Dance UK (www.onedanceuk.org) yn darparu canllaw ar gyfer gyrfaoedd dawns a Llysgenhadon Dawns</p> <p>Mae Music Mark (www.musicmark.org.uk) yn darparu ystod cynhwysfawr o adnoddau i gefnogi rhagoriaeth mewn addysg gerdd</p> <p>Mae The Media Education Association (www.themea.org.uk) yn darparu adnoddau i gefnogi addysgwyr cerdd ac i hybu llythrennedd cyfryngau</p>

Meysydd	Adnoddau cwricwlwm	Adnoddau dysgu proffesiynol
Iechyd a Lles	<p>Mae Equal Choices, Equal Chances (www.equalityhumanrights.com/en/primary-education-resources) yn darparu cynlluniau gwers a fideos wedi'u datblygu gan Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</p> <p>Mae Jigsaw Cymru (www.jigsawpshe.com) (£) yn darparu rhaglen waith fanwl ar gyfer ABCh/iechyd a lles ar gyfer plant 3 i 16 oed</p> <p>Mae PiXL (www.pixl.org.uk/edge) (£) yn cynnig adnoddau sgiliau bywyd</p> <p>Mae PSHE Association (https://pshe-association.org.uk/curriculum-and-resources/resources/health-and-wellbeing-wales-how-pshe-association) yn darparu amrywiaeth o adnoddau sydd wedi'u cynllunio i'w hymgorffori o fewn addysg iechyd a lles yng Nghymru</p>	<p>Mae <i>Career exploration and development in childhood</i> wedi'i olygu gan Mark Watson a Mary McMahon (Routledge, 2018) (www.routledge.com/Career-Exploration-and-Development-in-Childhood-Perspectives-from-theory/Watson-McMahon/p/book/9781138602014) yn cyflwyno penodau gan unigolion blaenllaw ym maes archwilio a datblygu gyrfalybaid ymysg plant</p> <p>Early Education (www.early-education.org.uk)</p> <p><i>Realising the ambition: Being Me</i> (Education Scotland, 2020) (education.gov.scot/media/3bjpr3wa/realisingtheambition.pdf)</p> <p><i>Educators' Toolkit Skills Builder</i> (www.skillsbuilder.org/primary)</p>
Y Dyniaethau	<p>Adnoddau hanes (www.history.org.uk/primary) gan y Gymdeithas Hanesyddol (Saesneg yn unig)</p> <p>Mae Historic England (https://historicengland.org.uk/services-skills/education/images-by-theme/) yn darparu delweddau fesul thema</p>	<p>Geographical Association (GA) (www.geography.org.uk/home) yw'r gymdeithas pwnc flaenllaw ar gyfer athrawon daearyddiaeth</p> <p>Mae'r National Association of Teachers of Religious Education (NATRE) (www.natre.org.uk) yn gweithio i gefnogi athrawon ac arweinyddion yn y maes hwn mewn ysgolion a sefydliadau eraill</p>
Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	<p>Llyfrau plant HarperCollins (www.harpercollins.com/pages/childrens) (£)</p> <p>Llyfrau plant Scholastic (www.scholastic.co.uk) (£)</p> <p>Llyfrau plant Usborne Publishing (https://usborne.com/gb/) (£)</p> <p>Llyfrau plant Walker Books (www.walker.co.uk) (£)</p>	<p>National Association for the Teaching of English (www.nate.org.uk)</p> <p>The English Association (https://englishassociation.ac.uk)</p> <p>UK Literacy Association (https://ukla.org)</p>

Meysydd	Adnoddau cwricwlwm	Adnoddau dysgu proffesiynol
Mathemateg a Rhifedd	<p>MoneySense (https://natwest.mymoneysense.com/home/) gan fanc NatWest – rhaglen addysg ariannol rhad ac am ddim ar gyfer dysgwyr 5 i 18 oed sy'n cynnwys gweithgareddau hwylus, gemau ac adnoddau sy'n helpu addysgu plant am arian yn y cartref ac mewn ysgolion</p> <p>Mae Young Enterprise – Young Money (www.young-enterprise.org.uk) yn elusen genedlaethol sy'n ysgogi plant i lwyddo ym myd gwaith gan roi iddynt y sgiliau, gwybodaeth a'r hyder sydd angen arnynt</p>	<p>Mae'r Association of Teachers of Mathematics (www.atm.org.uk) yn darparu ystod o ddeunyddiau ar gyfer gwersi a datblygiad proffesiynol, gan gynnwys rhai sy'n mynd i'r afael â effeithiau parhaus y pandemig</p> <p>Mae'r Mathematical Association (www.m-a.org.uk) yn cefnogi ac yn hyrwyddo hyder a mwynhad mathemateg i bawb, yn enwedig pobl ifanc</p> <p>Mae'r National Centre for Excellence in the Teaching of Mathematics (www.ncetm.org.uk) yn darparu ystod o adnoddau dysgu proffesiynol, gan gynnwys adnoddau sy'n ymdrin ag effeithiau parhaus y pandemig</p>
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	<p>Mae CareersCraft (gyrfacymru.llyw.cymru/cynllunio-eich-gyrrfa/adnoddau-addysg-gyrrfa-cymru/crefftgyrfaedd-ar-minecraft) yn fyd Minecraft newydd a gynlluniwyd i helpu i annog chwaraeawyr i ddysgu mwy am gyfleoedd gwaith a'r byd gwaith yn ogystal â'u cryfderau a'u diddordebau eu hunain</p> <p>Mae Careers City (hwb.gov.wales/repository/publishers/53ec1adb-6ec7-4773-a59e-9e4d57e282b3/resource/e261d08e-a589-4e3a-9d04-3d1feeee9473/cy) yn adnodd i ddysgwyr rhwng 7 ac 11 oed. Mae'r prif offeryn dysgu yn canolbwytio ar map darganfod sy'n cynnwys adeiladau o fewn dinas gyrfaoedd sy'n cynrychioli sectorau allweddol o ddiwydiant, megis siopau i gynrychioli swyddi manwerthu, canolfan ailgylchu i ddangos rolau mewn ynni a'r amgylchedd a chanolfan y dyfodol i gynnwys swyddi mewn gwyddorau bywyd</p>	<p>Mae STEM Learning (www.stem.org.uk) yn darparu prosiectau, hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer athrawon a dysgwyr</p> <p>Mae'r Technology, Pedagogy and Education Association (https://tpea.ac.uk) yn cefnogi datblygiad polisi ar ymarfer o fewn addysg dechnoleg</p> <p>Mae'r Design and Technology Association (www.data.org.uk) yn darparu cyngor, cefnogaeth ac hyfforddiant i bobl sy'n rhan o faes dylunio, peirianneg a thechnoleg</p>

Meysydd	Adnoddau cwricwlwm	Adnoddau dysgu proffesiynol
Gwyddoniaeth a Thechnoleg (parhad)	Mae gan Careers Planet (www.adviza.org.uk/shop/careers-planet) (£) gynlluniau gwersi a gemau ar thema 'y gofod' lle mae plant yn troi'n ofodwyr ac yn teithio i alaeth ffuglennol i ddarganfod 23 o Blanedau Gyrfaedd a'r swyddi sy'n bodoli arnynt	
Cyffredinol/trawsgwricwlaidd	<p>Mae BBC class clips (www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zhk7ty/resources/1) yn cynnwys cyfres o fideos ar gyrfaoedd a byd gwaith</p> <p>Mae'r Criw Mentrus (businesswales.gov.wales/bigideas/cy/adran-partner/cystadleuaeth-ysgolion-cynradd-ycrizw-mentrus) gan Syniadau Mawr Cymru yn rhoi cyfleoedd i blant oed cynradd ar draws Cymru i ddatblygu sgiliau entrepreneuriaidd mewn ffordd hwylus a rhngweithiol</p> <p>Mae First Jed (www.careersoft.co.uk/Products/Job_Explorer_Database/First_Jed.aspx) (£) wedi'i gynllunio ar gyfer ysgolion cynradd ac arbennig ac mae ganddo fap byd gwaith, gwybodaeth am swyddi a chwestiynau cwis</p> <p>Mae icould (https://icould.com) yn darparu ffilmiau ac adnoddau gyrfaoedd</p> <p>Mae LOUD! Network and the PSHE Association (https://pshe-association.org.uk/curriculum-and-resources/resources/loud-network-ks2-lessons-'job-skills-influences) wedi cydweithio i ddarparu gwersi Cyfnod Allweddol 2 newydd ar 'sgiliau gwaith, dylanwadau a nodau'</p> <p>Mae My future My choice (www.myfuturemychoice.co.uk) yn darparu gweithgaruddau ac adnoddau (£)</p> <p>Mae North East Ambition (www.northeastambition.co.uk) yn darparu adnoddau, cyfeiriadur darparwyr ac offer cwricwlwm</p>	<p><i>Mae A guide for primary school leaders on working with employers and volunteers</i> (www.educationandemployers.org/wp-content/uploads/2014/10/Primary-Futures-Guide.pdf) gan Primary Futures yn darparu canllawiau i ysgolion cynradd ar sut i weithio'n effeithiol gyda chyflogwyr</p> <p><i>Do primary school children's career aspirations matter?</i> Eirini Flouri a Constantina Panourgia (Centre for Longitudinal Studies, 2012) (https://cls.ucl.ac.uk/wp-content/uploads/2017/04/CLS-WP-20125-.pdf)</p> <p><i>Occupational aspirations of children from primary school to teenage years across ethnic groups</i> gan Lucinda Platt a Samantha Parsons (Centre for Longitudinal Studies a'r Runnymede Trust) (https://cls.ucl.ac.uk/wp-content/uploads/2018/09/9948_CLS_Paper_Occupational_Aspirations_of_Children_WEB_FINAL.pdf)</p> <p><i>Primary Futures: connecting life and learning in UK primary education</i> gan Anthony Mann, Elnaz Kashefpakdel a Steve Iredale (www.educationandemployers.org/wp-content/uploads/2017/05/Primary-Futures-research-essay-2017-Mann-Kashefpakdel-Iredale.pdf)</p> <p><i>Starting Early: Building the foundations for success</i> gan Chris Percy ac Alice Amegah (Education and Employers) (www.educationandemployers.org/research/startingearly/)</p>

Meysydd	Adnoddau cwricwlwm	Adnoddau dysgu proffesiynol
Cyffredinol/ trawsgwricwlaid (parhad)	<p>Mae The Panjango Resource Bank (https://panjango.com/collections/resource-bank) (£) yn cynnig adnoddau addysgu rhwngweithiol gan gynnwys gêm gyrfaoedd ar-lein i ddod â dysgu'n fyw a'i gysylltu â'r byd go iawn</p> <p>Mae'r Primary Careers Resources Platform (https://primary-careers.careersandenterprise.co.uk) (gan y Cwmni Gyrfaoedd a Menter) yn cynnwys adnoddau, astudiaethau achos, newyddion a gwylbodaeth am pam mae addysg gyrfaoedd yn bwysig a beth sy'n gweithio</p> <p>Mae Primary Futures (www.primaryfutures.org) yn galluogi ysgolion i gysylltu â gwirfoddolwyr o fyd gwaith</p> <p>Adnoddau addysgu TES (www.tes.com/teaching-resources) (£)</p> <p>Mae Twinkl (www.twinkl.ca/search?q=welsh&c=244&r=parent) (rhad ac am ddim, a £) yn darparu ystod o adnoddau cynllunio, gan gynnwys rhai y gellir eu defnyddio ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith</p> <p>YouTube (www.youtube.com) – chwiliwch fideos gyrfaoedd ar gyfer plant</p>	<p><i>What works? Career-related learning in primary schools</i> gan Elnaz Kashefpakdel, Jordan Rehill a Deirdre Hughes (Careers and Enterprise Company) (www.careersandenterprise.co.uk/media/m42pwir3/what-works-in-primary.pdf)</p> <p>The Curriculum for Excellence (Education Scotland) (education.gov.scot/education-scotland/what-we-do/developing-creativity-employability-and-skills/)</p> <p><i>The contribution of curriculum areas</i> (Education Scotland) (education.gov.scot/media/kxugralx/btc1.pdf)</p>

10. Adnoddau ar gyfer gyrfaeodd a phrofiadau byd gwaith yn y sector uwchradd

Adnoddau

Mae'r rhestr hon yn cynnwys y ddau adnodd sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer Cymru, ac adnoddau sydd wedi'u datblygu ar gyfer cyd-destunau eraill. Efallai y bydd angen addasu adnoddau sydd wedi'u haddasu y tu allan i Gymru. Ni ddylid trin yr adnoddau yn y siartiau hyn fel argymhellion penodol.

Meysydd	Adnoddau cwricwlwm	Adnoddau dysgu proffesiynol
Y Celfyddydau Mynegiannol	Cyngor Celfyddydau Cymru (https://arts.wales/cy) yw'r corff swyddogol sy'n ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru	National Drama (https://ndresources.co.uk) yw'r gymdeithas pwnc ar gyfer athrawon drama ac addysgwyr theatr Mae'r National Association for Education in Art and Design (NSEAD) (www.nsead.org) yn lais ar gyfer y celfyddydau, addysg grefft a dylunio ar draws pob sector, pob cyfnod addysg ar draws y DU a thu hwnt Mae One Dance UK (www.onedanceuk.org) yn darparu canllaw ar gyfer gyrfaeodd mewn dawns a Llysgenhadon Daws Mae Music Mark (www.musicmark.org.uk) yn sefydliad aelodaeth, cymdeithas pwnc ac elusen sy'n darparu gwasanaethau addysg gerddoriaeth a chanolfannau Mae'r Media Education Association (MEA) (www.themea.org.uk) yn cefnogi addysgwyr cerdd, hyrwyddo gwaith llythrennedd cyfryngau ac yn codi statws addysg gyfryngau

Meysydd	Adnoddau cwricwlwm	Adnoddau dysgu proffesiynol
Iechyd a Lles	<p>Mae CV+ yn cynnig portffolio, llythyr cyflenwi ac adeiladwr CV (www.cvplus.co.uk) (rhad ac am ddim a £)</p> <p>Mae Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (www.equalityhumanrights.com/en/commission-wales) yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb</p> <p>Mae Jigsaw Wales (www.jigsawpshe.com) (£) yn darparu rhaglen waith fanwl ar gyfer ABCh/ iechyd a lles ar gyfer plant 3 i 16 oed</p> <p>Mae PiXL (www.pixl.org.uk/edge) (£) yn cynnig adnoddau sgiliau bywyd</p> <p>Mae TrueTube (www.truetube.co.uk) yn darparu adnoddau ar gyfer addysg grefyddol, ABCh a dinasyddiaeth</p> <p>What's Your Strength? (https://whatsyourstrength.co.uk) (£)</p>	<p>Association for Physical Education (AfPE) (www.afpe.org.uk/physical-education/) yw'r gymdeithas pwnc ar gyfer athrawon dinasyddiaeth yn y DU</p> <p>PSHE Association (https://pshe-association.org.uk/curriculum-and-resources/resources/health-and-wellbeing-wales-how-pshe-association)</p> <p>Mae LifeSkills (https://barclayslifeskills.com/educators/lessons/) yn darparu cynlluniau gwersi</p> <p><i>Educators' Toolkit Skills Builder</i> (www.skillsbuilder.org/secondary)</p>
